**Datganiad Credoau Partneriaethau Pensiynau Cymru**

Prif amcan Partneriaeth Pensiynau Cymru ('y Bartneriaeth') yw darparu fframwaith fuddsoddi sy'n llwyddo i gael y deilliannau gorau i'w brif fudd-ddeiliaid; yr Awdurdodau Cyfansoddol. Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i ddarparu'r deilliannau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynllun. Yn ogystal, bydd y Bartneriaeth yn ymdrechu i gael gwerth am arian ac arbedion cost i'w fudd-ddeiliaid.

Mae gan y Bartneriaeth y credoau a ganlyn, a defnyddir y rhain i lywio penderfyniadau, polisïau a chynlluniau busnes y Bartneriaeth. Adolygir y credoau hyn bob blwyddyn.

- Swyddogaeth y Bartneriaeth yw hwyluso a darparu platfform cyd-fuddsoddi lle gellir gweithredu buddion yr Awdurdodau Cyfansoddol.
- Dylai llywodraethu da arwain at ddeilliannau uwch i fudd-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdodau Lletya a Chyfansoddol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth. Gallai cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd wrth ddarparu arbedion cost a gwell deilliannau i fudd-ddeiliaid.
- Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau lliniaru Risg Hinsawdd effeithiol, ynghyd ac ystyriaeth a rheolaeth dystiolaethol o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu arwain at well deilliannau ar gyfer budd-ddeiliaid y Bartneriaeth.
- Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol er mwyn cyflawni amcanion y Bartneriaeth.
- Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd cost-effeithiol o wella adnoddau, galluoedd ac arbenigedd y Bartneriaeth.
- Bydd tryloywder ffioedd a chostau yn cynorthwyo gwneud penderfyniadau ac yn gwella deilliannau budd-ddeiliaid.
- Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn cynorthwyo'r Bartneriaeth a'i Awdurdodau Cyfansoddol i esblygu.
- Bydd ymagwedd hyblyg i strwythur cyd-fuddsoddi a dulliau gweithredu'r Bartneriaeth yn galluogi cronfa gyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth i addasu yn y dyfodol, a pharhau i gwrdd â gofynion ei fudd-ddeiliaid.

Fersiwn 1.0
Rhagfyr 2019